

DYFODOL

Ymateb i Ymgynghoriad  
ar Gytundeb Gweithredu  
BBC ac S4C

Llais i'r laith

Dyfodol i'r laith  
Hydref 2012  
[www.dyfodol.net](http://www.dyfodol.net)

Ymateb i Ymgynghoriad ar Gytundeb Gweithredu BBC a S4C

© Dyfodol i'r Iaith Cyf., 2012

Cyhoeddwyd gan Dyfodol I'r Iaith  
25 Ael y Bryn  
Caerfyrddin  
Sir Gâr  
SA31 2HB

**[www.dyfodol.net](http://www.dyfodol.net)**

## **1. Dyfodol i'r iaith**

- (i.) Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad newydd yn mywyd cyhoeddus Cymru a sefydlwyd yn haf 2012 er mwyn gallu gweithredu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar faterion yn ymwneud yn uniongyrchol a dyfodol a lles yr iaith Gymraeg. Mae yn fudiad amhleidiol sydd yn derbyn cefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn ogystal ag o sawl rhan o gymdeithas sifil yn Nghymru. Mae Dyfodol fel mudiad wedi ymrwmo i weithredu drwy ddulliau cyfansoddiadol yn unig a bydd yn gweithredu drwy ddwyn perswad ar wleidyddion, mudiadau a rheoleidddywr ym maes iaith, a nifer o gyrff ac unigolion eraill ym mywyd sifig Cymru. Roedd sefydlu Dyfodol yn haf 2012 yn ymateb i alwadau o fewn cymdeithas sifil a gan garedigion yr iaith am fudiad cyfansoddiadol, annibynnol ac amhleidiol fyddai yn gallu gweithredu o fewn setliad cyfansoddiadol datganoli er lles yr iaith.

## **2. Ymateb Dyfodol i'r iaith: S4C**

- (i.) Mae Dyfodol i'r iaith yn nodi pwysigrwydd allweddol S4C i'r iaith Gymraeg ac i fywyd cenedlaethol Cymru yn arbennig o safbwynt cynnal gwasanaethau allweddol i siaradwyr Cymraeg, pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg a phobl o bob iaith a chefnidir sy'n dymuno'r cyfle i fwynhau diwylliant Cymraeg.
- (ii.) Mae Dyfodol hefyd yn nodi pwysigrwydd S4C a'r gwasanaethau a gynigir gan S4C i siaradwyr Cymraeg yn bennaf ond ymhellach na hynny i holl boblogaeth Cymru yn y broses o drosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth ac yn ymestyn y defnydd o'r iaith i unigolion a chymunedau na fyddant fel arall yn defnyddio'r iaith na gwasanaethau yn yr iaith.
- (iii.) Mae Dyfodol hefyd yn nodi cyfraniad S4C dros y 30 mlynedd diwethaf i economi Cymru, yn arbennig felly drwy ymestyn cyfleoedd gwaith, sgiliau, a mentergarwch ymysg siaradwyr Cymraeg, rhai sy'n dysgu'r iaith ac eraill; a thrwy ddarparu cyfle i sefydlu a thyfu busnesau modern arloesol mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol.
- (iv.) Rydym yn nodi gyda pheth pryder y ffaith bod y sefydliad Cymreig annibynnol hwn, y mae lles yr iaith Gymraeg yn bennaf pwrpas ei

fodolaeth, bellach yn ddarostyngedig (i bob pwrpas) i'r BBC, sefydliad enfawr, sy'n gweithio ar lefel Brydeinig, y mae'r Gymraeg ymhell o fod ymhlith ei brif flaenoriaethau, er ei fod wedi gwneud ac yn parhau i wneud gwaith rhagorol dros yr iaith.

- (v.) Er nad yw yn disgyn o fewn cwmpawd yr Ymgynhoriad yma, dymuniad Dyfodol yw gweld S4C yn atebol i farn democrataidd pobl Cymru, ac i gyfrifoldeb dros ddarlledu yng Nghymru gael ei ddatganoli i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd.
- (vi.) Mae Dyfodol yn nodi'r setliad ariannol yn y Cytundeb Gweithredu ond yn pryderu am effaith toriadau o 27% (dros 40% o gyfrif am chwyddiant) yn y cyfnod 2012 i 2017 a'i effaith ar wasanaethau teledu ac aml-gyfrwng perthynnol yn yr iaith Gymraeg.
- (vii.) Mae Dyfodol yn nodi gyda phryder yr ansicrwydd ynglŷn â chyfraniad yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i gyllid S4C tu hwnt i 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Prydain i roi sicrwydd o barhad y ffynhonell yma o gyllid tu hwnt i 2015.
- (viii.) Mae cydraddoldeb rhwng gwasanaethau sydd ar gael yn yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ganolog i unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ynglŷn â darlledu yn yr iaith Gymraeg, ac yn arbennig felly S4C. Rhaid peidio â cholli gafael ar y ffaith mai iaith leiafrifol frodorol yw'r iaith Gymraeg, a bod dyletswydd mewn cyfraith ryngwladol ar y Deyrnas Gyfunol i'w hyrwyddo, ac yn wir i gynnal sianel deledu ynddi.
- (ix.) Mae Dyfodol yn galw ar i'r BBC a Llywodraeth Prydain i gytuno bod Gwasnaethau S4C yn elfennol wahanol i weddil sianelau a gwasanaethau y BBC ac y dylai lefel cyllideb ac ystod gwasnaethau S4C ei warchod o fewn Siarter newydd y BBC o 2017 ymlaen, ar lefel sydd ddim is na'r un a nodir yn y Cytundeb Gweithredu yma gan gynnwys codiadau blynyddol am chwyddiant.
- (x.) Ymhellach i'r pwyntiau uchod mae Dyfodol yn credu y dylai atebolrwydd am gyllid S4C o'r Ffi Drwydded ei osod o dan orchwyl Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd llawn i bobl Cymru am reolaeth S4C.

- (xi.) Mae Dyfodol yn galw am sicrhau na fydd mesuryddion y mae'r BBC yn eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur cyrhaeddiad a pherfformiad eu gwasnaethau hwy, sef yn benodol diffiniadau Pwrpas Cyhoeddus (Public Purpose) mesurydd cost gwylwr/awr, yn cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad S4C o dan y cytundeb yma. Ymhellach rydym yn galw ar i Ymddiriedolaeth y BBC ag Awdurdod S4C gytuno ystod o fesuryddion fydd yn cynnwys asesiad o rol allweddol S4C yn cynnal cymunedau ieithyddol drwy Gymru ag asesiad o'i werth diwylliannol a democrataidd i Gymru.

### **3. Ymateb Dyfodol i'r Iaith: Cytundeb Gweithredu**

#### **Perfformiad ac Adolygiad**

- (i.) Dylid sicrhau yma bod unrhyw benderfyniadau neu amrywiadau a wneir i *Gytundeb Gweithredu BBC ac S4C* o dan y cymalau yma yn seiliedig ar ddatblygu dangosyddion perfformiad sydd yn effeithiol ag yn briodol i natur gwasnaeth a chynulleidfa S4C ac nid yn seiliedig ar ffigyrau gwyllo yn unig.
- (ii.) Ymhellach i Paragraph 3(i.) uchod dylid mynd ati i ddatblygu dangosyddion perfformiad y bydd modd seilio penderfyniadau ystyrlon arnynt ynglŷn â chyfeiriad a natur y gwasanaeth. Mae Dyfodol yn nodi methiant y dangosyddion presennol, ac yn arbennig felly ffigyrau BARB, i adlewyrchu gwir werth S4C, fel gwasanaeth a sefydliad, i Gymru.
- (iii.) Ymhellach i Paragraph 3 (ii.) nid yw Dyfodol yn derbyn bod metrig yn seiliedig ar gost awr/defnyddiwr ar ei ben ei hun yn fesurydd dibynadwy na derbynniol i'w ddefnyddio heb hefyd ystyried gwerthfawrogiad cynulleidfa ac ystyried natur gwasanaeth a chyrhaeddiad S4C yn eu cyd-destun llawn.
- (iv.) Wrth asesu perfformiad S4C mae yn hanfodol nad yw diffiniad y BBC o'i Bwrpas Cyhoeddus (Public Purpose) yn cael ei drosglwyddo i S4C heb ystyried natur arbennig gwasnaethau S4C ag yn benodol felly y gwaith a wneir gan y sianel yn cynnal cymunedau ieithyddol hyd a lled Cymru.

## Cyllid

- (v.) Mae Dyfodol yn credu taw y ffigwr a nodir ar gyfer 2016-2017 yw'r isafswm derbynniol ar gyfer cyfraniad y Ffi Drwydded i S4C ac y dylai Siarter y BBC o 2017 ymlaen gynnwys hyn fel isafswm
- (vi.) Mae Dyfodol yn galw ar yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau y bydd eu cyfraniad o £7m yn parhau tu hwnt i 2015 ac yn cynnwys codiadau yn unol â chwyddiant.
- (vii.) Os na fydd yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i gyfrannu yna mae Dyfodol yn galw ar Lywodraeth Cymru i gamu i'r adwy ac i atebolrwydd democrataidd dros S4C gael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, gyda chyllid digonol I ddilyn hynny oddi wrth y Trysorlys.

## Atebolrwydd

- (viii.) Tra bo Dyfodol yn croesawu y ffaith y bydd S4C yn atebol am ddefnydd o arian yn arbennig o gofio gwendidau rheolaethol y blynyddoedd diwethaf, rydym yn credu taw i Lywodraeth Cymru y dylai S4C fod yn atebol am unrhyw gyllid ac nid i Ymddiriedolaeth y BBC.
- (ix.) Yn unol a Paragraph (vii.) mae Dyfodol yn galw ar i'r elfen o'r Ffi Drwydded fydd yn ariannu S4C ei reoli gan Lywodraeth Cymru.

## Gweithrediadau

- (x.) Dylai'r hyn y cyfeirir ato ym maharagraff 6.2 sef "*perthynas greadigol ar bob lefel..*" ymestyn i drafodaethau ystyrion ynglyn â chyd-gomisiynnu a chyd-ariannu cynnwys rhwng gwasanaeth S4C a gwasnaeth teledu y BBC gna gynnwys gwasnaeth teledu rhwydwaith Prydeinig y BBC gyda'r bwriad o ymestyn yr ystod o gynnwys rhwydwaith sydd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru ar draws gwasnaethau'r BBC.
- (xi.) Dylai'r gwasnaeth a'r diffiniadau o wasnaeth S4C o dan y cytundeb yma gynnwys rol allweddol S4C yn sicrhau cynnwys aml-gyfryngol ag arlein

sydd yn rol bron yn unigryw fel cyhoeddwr-gomisiynydd o ddeunydd o'r math yn y Gymraeg.

### **Datrys Anghydfodau**

- (xi.) Yn unol ag ysbryd Paragraff 6.5 sydd yn datgan "*Ni fydd statws Awdurdod S4C fel corfforaeth statudol annibynnol yn cael ei effeithio gan ddarpariaethau'r Cytundeb hwn*" mae'r ddarpariaeth ym Mharagraff 6.20 sydd yn caniatáu i Ymddiriedolaeth y BBC leihau neu atal ariannu yn amrhodol ag yn anweithredol.
  
- (xii.) Yn unol â'r pryderon a ddatngennir yn (x.) uchod mae Dyfodol yn galw am ddarpariaeth annibynnol o dan oruchwyliaeth Llywodraeth Prydain a/neu Lywodraeth Cymru pan na fydd modd datrys anghydfod a allai godi rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Byddai darpariaeth o'r fath yn fodd o sicrhau y dyhead ym Mharagraff 6.5 o'r Cytundeb Drafft sydd yn datgan bod Awdurdod S4C a statws corfforaethol annibynnol o dan statud. Nid yw yn briodol yn ein barn ni bod corfforaeth statudol annibynnol o'r fath yn ddarostyngedig i Ymddiriedolaeth y BBC yn y modd yma. Mae'n hanfodol fod goruchwyliaeth ddemocrataidd o unrhyw anghydfodau na fyddai moedd eu datrys rhwng y ddau gorff.
  
- (xiii.) Yn unol â'n pryderon yn (x.) a (xi.) uchod nid yw felly yn briodol bod gan ymddiriedolaeth y BBC yr hawl i atal ariannu o dan y ffi drwydded heb oruchwyliaeth ddemocrataidd gan unai yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb yn Llywodraeth Prydain neu y Gweinidog priodol o fewn Llywodraeth Cymru.

### **Dyfodol i'r Iaith**

### **Hydref 2012**

**DYFODOL** Llais i'r laith